**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Rhagfyr 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 6:PRIS CINIO YSGOL

---

**PENDERFYNIAD**

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol yn Ionawr 2021 ac i gomisiynu'r Pennaeth Addysg i edrych ar bolisi hir dymor ar gyfer pris cinio ysgol ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cyllideb arlwyo cynradd, arbennig a dilynol yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgol cynradd, ac mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio i gadw i fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.  Mae'r costau wedi cynyddu 2.56% yn 2020/21 ar er mwyn cwrdd â'r costau hynny byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.56, ond wrth eri rowndio fyny byddai hyn yn £2.60 sydd gyfwerth a 4%.

Gan ystyried sefyllfa gymharol y Cyngor a'r flaenoriaeth sydd i leihau anghydraddoldeb dichon gofynnwyd i'r Cabinet i beidio cynyddu pris cinio ysgol am eleni. Pwysleisiwyd angen i edrych ar bolisi tymor hir ar gyfer pris Cinio Ysgol a gofynnwyd am waith pellach i'r mater ac adrodd yn ôl i'r Cabinet.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datgan o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Canlynol: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Catrin Wager, Gareth Thomas, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Cemlyn Williams gan fod eu plant neu wyrion yn derbyn cinio ysgol. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly roedd modd iddynt fod yn bresennol i'r eitem.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Rhagfyr 2020 |

## PWNC

Eitem 7:HUNANIAITH

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd am angen i wneud gwaith pellach ar ystyried opsiynau posib yn y dyfodol ar gyfer Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd.

Sefydlu tasglu o swyddogion y Cyngor i adnabod y camau angenrheidiol sydd angen eu dilyn i greu achos busnes cadarn ar gyfer yr opsiynau posib.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n hynod bwysig sicrhau fod Hunaniaith yn cyflawni i drigolion Gwynedd yn y modd mwyaf effeithiol bosib. Mae adroddiad gan IAITH : Y Ganolfan Cynllunio Iaith wedi ysgogi trafodaeth i sicrhau seiliau cadarn ar gyfer Hunaniaith.

Mae'r drafodaeth hwn wedi arwain at argymhelliad gan Grŵp Strategol Hunaniaith i sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol i'r dyfodol i wireddu potensial Hunaniaith. Bydd angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu opsiynau posib gan roi ystyriaeth fanwl i'r buddion, risgiau a'r costau er mwyn dod i gasgliad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Rhagfyr 2020 |

**PWNC**

Eitem 8:CYTUNDEB TERFYNOL AR GAIS TWF GOGLEDD CYMRU

**PENDERFYNIAD**

- Cadarnhawyd y Cynllun Busnes Cyffredinol yn ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo fel y ddogfen sy'n gosod y trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cadarnhawyd y darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol yn ffurfiol ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol a'i fod (y Cabinet) yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yn "Cytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Yn ddarostyngedig i gwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, bod Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Lletya a'r Corff Atebol ac yn llofnodi'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid drwy law'r Prif Swyddog Cyllid.
- Cadarnhawyd ffurfiol ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca sydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, ac i gynnwys darpariaeth o fewn Cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2
- Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn 2016, bu i bartneriaid y Bwrdd Uchelgais fabwysiadu'r Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, yn Hydref 2018, cytunwyd ar y Cynllun Twf gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r sector breifat.

Yn mis Tachwedd 2019, bud i'r Bwrdd Uchelgais ar ddwy  Lywodraeth gytuno ar y Penawdau'r Telerau, gyda Chytundeb Terfynol i'w gwblhau yn 2020. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gyrraedd y Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.